Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.5 Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth yma yn esbonio beth yw cymhwysedd deddfwriaethol, beth yw Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, sut y'u gwneir, a thrafod sut all y trydydd sector ddylanwadu arnynt.

Beth yw cymhwysedd deddfwriaethol?

Mae hwn yn bŵer cyfreithiol i wneud deddfau, a rhaid derbyn y fath awdurdod oddi wrth Lywodraeth y DU.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu mewn rhai meysydd polisi (a elwir yn 'Feysydd') a ddatganolwyd o Lywodraeth y DU. Yn fwy penodol, gellir gwneud deddfau yn unig mewn perthynas ag isbynciau penodol (a elwir yn 'Faterion'), o fewn y Meysydd polisi datganoledig. Presenoldeb Maes sy'n nodi fod gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud deddf ar y mater neilltuol hwnnw.

Felly, rhaid i'r Cynulliad gael cymhwysedd deddfwriaethol (h.y. yr hawl gyfreithiol) i wneud deddf ar Faterion (h.y. y meysydd a ddiffiniwyd yn benodol) mewn Maes penodol (h.y. un o 20 maes polisi eang a ddatganolwyd o Lywodraeth y DU).

Meysydd a Materion

Mae yna 20 Maes o fewn Atodlen 5 o'r Ddeddf 2006, sy'n golygu fod yna 20 maes polisi ble gall y Cynulliad wneud deddfau. Yr 20 yw:

- Maes 1 – amaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygiad gwledig
- Maes 2 – henebion ac adeiladau hanesyddol
- Maes 3 - diwylliant
- Maes 4 – datblygiad economaidd
- Maes 5 – addysg a hyfforddiant
- Maes 6 – yr amgylchedd
- Maes 7 - gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch tân
- Maes 8 - bwyd
- Maes 9 - gwasanaethau iechyd
- Maes 10 - priffyrdd a thrafnidiaeth
- Maes 11 - tai
- Maes 12 - llywodraeth leol
- Maes 13 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Maes 14 - gweinyddiaeth gyhoeddus
- Maes 15 - lles cymdeithasol
- Maes 16 - chwaraeon a hamdden
- Maes 17 - twristiaeth
- Maes 18 - cynllunio tref a gwlad
- Maes 19 - amddiffyn dŵr a llifogydd
- Maes 20 - yr iaith Gymraeg

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw pob Maes yn Atodlen 5 yn cynnwys Materion. Golyga hyn na all y Cynulliad wneud deddfau yn y meysydd hynny eto gan nad oes ganddo'r hawl gyfreithiol (y cymhwysedd deddfwriaethol) i wneud hynny. Gellir edrych ar y materion fel meysydd penodol cymhwysedd deddfwriaethol.

Geirir y Materion yn benodol. Er enghraifft mae Mater 12.4 yn datgan:

'Provision for and in connection with strategies of county councils and county borough councils for promoting or improving the economic, social or environmental well-being of their areas or contributing to the achievement of sustainable development in the United Kingdom, including provision imposing requirements in connection with such strategies on other persons with functions of a public nature.'

Golyga hyn fod y Cynulliad yn medru nodi Mesurau (h.y. cyfreithiau) yn y maes penodol yma am fod ganddo'r cymhwysedd deddfwriaethol i wneud hynny. Mae Mesurau'r Cynulliad yn destun ar daflen wybodaeth arall.

Nid yw holl wybodaeth am y Materion wedi'i nodi yma, yn rhannol oherwydd bod yna lawer o wybodaeth benodol, ond yn bennaf oherwydd bod hwn yn faes wybodaeth dynamig. Mae Materion pellach yn cael eu cynnig drwy'r amser, a bydd y wybodaeth yn parhau i newid wrth i bwerau deddfwriaethol y Cynulliad ehangu. Am y wybodaeth ddiweddaraf, edrychwch ar un o'r gwefannau canlynol:

Lleisiau dros Newid Cymru
www.voicesforchangecymru.org.uk
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-documents/legislation_fields.htm

Cael cymhwysedd deddfwriaethol

Mae yna ddwy ffordd i wneud hyn o San Steffan:

1. Gellir mewnosod Materion i'r Meysydd yn Atodlen 5 yn uniongyrchol drwy Ddeddfau Seneddol y DU

2. Gall y Cynulliad ei hun geisio cymhwysedd deddfwriaeth drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD), sy'n gofyn bod Materion ychwanegol yn cael eu hychwanegu at Feysydd yn Atodlen 5.

Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD)

Gall y Cynulliad gael mwy o bwerau cyfreithiol i wneud deddfau drwy'r GCD, drwy ychwanegu Materion i'r Meysydd yn Atodlen 5 Deddf 2006. Yn nhermau cyfreithiol, mae GCD yn fath o ddeddfwriaeth a elwir yn y DU yn 'Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor'.

Cofier nad yw GCD yn gyfreithiau eu hunain; maen nhw'n trosglwyddo pŵer i wneud deddfau o San Steffan i Fae Caerdydd. Mesurau'r Cynulliad yw'r cyfreithiau.

Pwy all gynnig GCD?

Gellir cynnig GCD gan:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Aelod o'r Cynulliad sy'n ennill pleidlais - gall AC roi ei henwau mewn pleidlais ynghyd ag amlinelliad o gynnig yr hoffent ei gyflwyno.
- Pwyllgor y Cynulliad.
- Aelodau'r cyhoedd drwy broses Deiseb Gyhoeddus. Noder na fydd deiseb yn arwain yn awtomatig at gynnig GCD - mae taflen wybodaeth ar wahân ar y pwnc yma.

Beth yw proses cymeradwyo GCD?

Mae GCD yn mynd drwy'r broses ganlynol:

Cam 1 - archwiliad cyn-ddeddfwriaethol y **Gorchymyn arfaethedig** gan y Cynulliad

- Gosodir y Gorchymyn arfaethedig.
- Mae'r Pwyllgor Busnes yn penderfynu os dylid ystyried y cynnig gan un o'r Pwyllgorau deddfwriaethol. Os na, gwneir cynnir yn y Sesiwn Lawn (h.y. cyfarfod llawn y Cynulliad), na ddylai fod ystyriaeth Pwyllgor, ac os cytunir ar hyn, bydd Gorchymyn Drafft yn mynd ymlaen gyda'r Aelod sy'n cynnig y Gorchymyn. Os na gytunir ar hyn, rhaid iddo fynd ymlaen at Bwyllgor deddfwriaethol.
- Yn ystod y cam yma, ystyrir y Gorchymyn arfaethedig gan Bwyllgorau yn y Tŷ Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Gwneir hyn fel arfer drwy Bwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a Phwyllgor y Cyfansoddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi.
- Os yw'r Gorchymyn arfaethedig yn mynd at Bwyllgor deddfwriaethol, bydd yn cael ei archwilio, a bydd unrhyw adroddiad (ynghyd ag unrhyw adroddiadau o San Steffan) yn cael eu hystyried cyn i Orchymyn drafft (gweler isod) gael ei osod o flaen y Cynulliad.

Mae'r **Gorchymyn arfaethedig** nawr yn **Orchymyn drafft.**

Cam 2 - archwiliad deddfwriaethol o'r Gorchymyn drafft gan y Cynulliad

- O fewn 40 diwrnod gosod y Gorchymyn drafft, rhaid i'r Cynulliad benderfynu ei dderbyn ai peidio. Ni ellir newid gorchymyn drafft mewn unrhyw ffordd, dim ond ei gytuno neu ei wrthod.

Cam 3 - ystyriaeth ffurfiol o'r Gorchymyn drafft gan Senedd y DU

- Mae'r Prif Weinidog yn anfon copi o'r gorchymyn drafft a chymeradwyaeth y Cynulliad at Ysgrifennydd Gwladol Cymru.
- O fewn 60 diwrnod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ei osod gerbron y Senedd neu roi rhesymau am beidio gwneud hyn.
- Bydd dadleuon a phleidleisiau yn digwydd yn y Tŷ Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.
    - Unwaith eto, ni elli newid gorchymyn drafft mewn unrhyw ffordd, dim ond ei gytuno neu ei wrthod.

Cam 4 - cymeradwyaeth brenhinol

- Unwaith y ceir cymeradwyaeth gan y Senedd, bydd y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor yn rhoi Cydsyniad Brenhinol - nawr fe gymeradwyir y GCD.

Sut all y trydydd sector ddylanwadu ar gymhwysedd deddfwriaethol?

Mae yna nifer o ffyrdd gwahanol y gall y sector ddylanwadu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar sail ragweithiol ac adweithiol.

Yn rhagweithiol, gall y sector fod yn rhan o lobïo Gweinidogion y Cynulliad ar faterion ble mae angen cymhwysedd deddfwriaethol. Gall hyn arwain at GCD drwy raglen ddeddfwriaethol y Cynulliad; drwy Bwyllgor y Cynulliad; neu drwy AC yn y broses bleidleisio. Yn yr un modd, mae defnyddio'r Ddeiseb Gyhoeddus yn ffordd o genhedlu cynnig GCD (neu o leiaf codi ymwybyddiaeth am fater penodol).

Yn adweithiol, gall y sector fod yn rhan o'r prosesau archwilio sy'n ffurfio rhan o broses cymeradwyo GCD. Yn y cam cyn-ddeddfwriaethol, os yw'r Gorchymyn arfaethedig yn mynd at Bwyllgor deddfwriaethol, byddant yn ymgynghori ar y gorchymyn. Dyma gyfle i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, a gall y Pwyllgorau weithiau wahodd unigolion a mudiadau i roi tystiolaeth uniongyrchol ar lafar.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn wasanaeth sydd ar gael i bob AC; bydd yn ddefnyddiol i gysylltu â'r corff yma.

Mae'n darparu adroddiadau cefndirol ac ymchwil yn ôl gofynion yr AC, ac wrth ddarparu adroddiadau a gwybodaeth i'r Gwasanaeth Ymchwil, gall y sector ymestyn ei neges.

Yn ogystal ag ymglymiad gyda'r Cynulliad, dylid cofio fod gan San Steffan rôl yng nghymeradwyo (ai peidio) y GCD, a'r pŵer i effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol drwy Ddeddfau Seneddol y DU. Mae llais dylanwadol y sector yr un mor bwysig yn Llundain ag yw ym Mae Caerdydd. Mae'n ddefnyddiol i wybod pa AS ac Arglwyddi fydd yn rhan o archwiliad y GCD sy'n berthnasol i chi, fel y gallwch gysylltu â nhw a datgan eich barn.

Gwybodaeth bellach

Mae **Lleisiau dros Newid Cymru** yn un o brosiectau WCVA ac fe'i cefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn, mae mwy o gyfleoedd nag erioed i'ch llais gael ei glywed, a nod y prosiect yw darparu gwasanaethau i alluogi mudiadau trydydd sector i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Ffôn: 0800 2888 329
vfcc@wcva.org.uk
www.voicesforchangecymru.org.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
www.cynulliadcymru.org

Am wybodaeth bellach ar GCD a ystyrir yn gyfredol gan y Cynulliad, gweler www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-progress-lcos-measures.htm

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:30/03/2009

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk